PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 159 Rhif 33/34 Awst 13/20, 2026 50c.

# Cenhadon Texas

Ar ddiwedd Gorffennaf daeth pump o genhadon ifanc draw i Gaerdydd i helpu gyda gweithgareddau Angor Grangetown. Roedd tri ohonynt o Texas a dau o Gymru (Jasmin, Kane, Jerry, Bronwen a Cadog) ac yn teimlo galwad Duw i waith Cristnogol. Roeddent wedi bod yn dilyn cynllun hyfforddi gynhaliwyd gan y BSM (Baptist Student Mission) am flwyddyn gron yn yr Unol Daleithiau ac yma mewn gwahanol ardaloedd o Gymru. Roedd yn braf cael eu cwmni gan eu bod fel Cristnogion ifanc yn llawn gweledigaeth, egni a brwdfrydedd. Rydym angen llawer mwy ohonynt yn





ein heglwysi i danio adnewyddiad.

Ar y nos Lun daeth pedwar ohonynt i farbeciw diwedd tymor Ebeneser ac yno cawson gyfle i gydfwyta, gwrando ar eu hynt a'u helynt a gweddïo gyda hwy a throstynt. Yna, am bedwar diwrnod buont yn helpu i gynnal Clwb Gwyliau Plant Angor, mewn cydweithrediad ag eglwys Grace, Grangetown. Daeth 40 o blant

*parhad ar dudalen 3*

# Saron, Creunant





### Eglwys Corea Cymru

Bu eglwys Saron Creunant, ar wibdaith ar ddechrau mis Gorffennaf er mwyn ymweld ag Eglwys Corea Cymru. Mae'r eglwys hon yn defnyddio adnoddau ardderchog eglwys Thornhill, Caerdydd o Sul i Sul er mwyn addoli a chymdeithasu. Roedd yn wirioneddol braf treulio amser gyda'n gilydd yn addoli'r Arglwydd gan gyhoeddi'r newyddion da. Wrth gwrs mae gan Gristnogion Corea deimladau cynnes iawn tuag at genedl y Cymry oherwydd y cysylltiad hanesyddol sydd rhyngom.

Rydym yn ddiolchgar am y croeso cynnes a gawsom ac am y cyfle i gryfhau'r cyfeillgarwch rhwng ein heglwysi. Mae diwrnodau fel hyn yn ein hatgoffa, er ein bod yn dod o wahanol leoedd a diwylliannau, ein bod yn un teulu yn Iesu Grist ein gwaredwr.

Diolch i bawb a helpodd i wneud y diwrnod mor arbennig. Edrychwn ymlaen at fwy o gyfleoedd i ddod at ein gilydd eto. 'Mor dda a hyfryd yw byw gyda'n gilydd mewn undod!' (Salm 133:1)

### Cenhadon Brasil

Hefyd ar ddydd Mercher 8 Gorffennaf. Fe ddaeth cenhadon o Frasil i ymuno gyda ni yn Saron ar gyfer oedfa o fawl a noson gyri. Cafwyd bendith aruthrol yn eu cwmni gan eu bod yn llawn anogaeth inni barhau yn ddygn i wneud gwaith yr Arglwydd yn yr ardal hon.

**Rhys Locke**

# Fuoch chi erioed yn Utrecht?

Fum i erioed o'r blaen yn yr Iseldiroedd nac mewn cynhadledd o'r fath, felly mawr fu'r edrych ymlaen at fynychu cynulliad rhanbarth Ewrop CWM (Council for World Mission). Clywais eisoes pa mor braf oedd Utrecht, a ches i mo fy siomi! Dinas lân ydyw, ag awyrgylch braf yno. Gwelais bobl o bob oed a phob tras yn gwibio heibio ar eu beiciau – rhai'n teithio i'r gwaith, cyplau yn reidio law yn llaw, eraill â phlant mewn cerbyd ochr. Sylwais fel yr oedd pawb yn drawiadol o drwsiadus. Lle destlus a threfnus felly, a phopeth yn gymen yn ei le.



## Yr Ysbryd ar waith

Roedd yr amserlen yn gynhwysfawr – oedfa bob bore (mewn capel hyfryd gyda ffenestri lliw trawiadol), nifer o ddarlithoedd, a thrafodaethau buddiol. Yn ogystal, trefnwyd inni ymweld ag un o eglwysi mwyaf cyffrous y wlad sef Nieuwe Kerk, sydd ag oddeutu chwe chant yn addoli yno ar fore Sul. Da oedd cael y cyfle i ddysgu am eu strwythur, eu hamcanion cenhadol, a'u prosiectau. Mae dau arweinydd – un gweinidog o natur fwy traddodiadol, a'r llall yn cael ei alw'n arloeswr. Fe'm synnwyd gan wyleidd-dra'r ddau, o ddeall eu llwyddiant, a'r modd yr oeddent yn cydweithio'n ddidrafferth. Yn eu cyflwyniad, amlygwyd inni'n dawel hyderus fod yr Ysbryd ar waith. Teimlais hefyd fod ystwythder eu gweithgaredd ychwanegol (sesiynau anadlu, cyrddau gweddi a myfyrio, prydau cymunedol) yn sicr yn gymorth i'r ffyniant ysbrydol ymysg y mynychwyr. Eu nod? Canfod Duw yn y bob dydd, a hynny drwy'r meddwl, calon, enaid, a'r corff yn gyfan. Dyna ichi dda!

## Een kopje koffie

Wedi hynny, aethpwyd â ni i gaffi hyfryd nid nepell o'r man addoli sy'n eiddo i'r eglwys. Yno, cawsom gyflwyniad gan un o'r diaconiaid sy'n gyfrifol am arwain y prosiect Buurtcafé Vonk. Clywsom am eu gwerthoedd:

- Just dewch i mewn – coffi, diod, a bwyd am bris rhesymol, awyrgylch agored.
- Creu 'da'n gilydd – dosbarthiadau coginio, cyfarfodydd trafod, lle i bawb o bob oed, nosweithiau 'meic agored'.
- Wastad rhywbeth yn digwydd – sgyrsiau da, gweithdai creadigol, caffi galar, gweithgaredd cyffrous ond hefyd gofod just i fod.

Cawsom swper ganddynt a chyfle i holi ymhellach. Bu llawer o drafod!

## Pregethau

Rhan o natur cynadledda yw cwrdd â phobl. Un o'r rheiny oedd gweinidog yr efengyl o'r enw Jasmine – merch drawsrywiol, wedi'i geni fel dyn ond yn byw fel merch. Hi oedd yn arwain yr oedfaon boreol ac fe gafodd ei phregethu effaith fawr arnaf. Ar y bore cyntaf, ei darlleniad oedd Ioan 9 (y bennod gyfan). Roedd ei phregethu'n ddiymhongar ond yn rymus a heriol.

Y bore canlynol, wrth agor y Gair, aeth rhyw ymdeimlad ansicr drwy'r capel ac ychydig o godi aeliau wrth glywed Jasmine yn cyhoeddi ei bod yn troi at Ioan 9! Yr un darlleniad â'r bore cynt?! Ie, a chafwyd pregeth effeithiol ar ddallineb, rhagfarn, a'r iachâd a ddigwyddodd drwy gymysgedd poer Iesu â baw y pridd yn cael ei olchi ym mhwll Siloam.

Ar y trydydd bore, roedd yr aeliau'n codi'n ddisgwylgar cyn dod at rannu'r Ysgrythur! Ac ie, cawsom glywed y nawfed bennod o Efengyl Ioan yn gyfan *eto*! Daeth yn amlwg inni gyd mai anelu'r testun yn syth i'n calonnau ni oedd bwriad Jasmine. Rhannodd ei phrofiad o gael ei hanwybyddu a'i gwawdio, ond fel yr ydoedd bellach wedi'i derbyn gan aelodau ei heglwys yn llawn a llawen. Rhannodd hefyd eiriau'r diwinydd Dr Upolu Luma Vaai (pennaeth y Coleg Diwinyddol yn Fiji): 'Nid gyrru pobl allan yw cenhadu bellach, ond helpu pobl i adnewyddu realaeth newydd ar y tu mewn.'

## Codi muriau

Sylweddolais, ein bod i gyd yn adeiladau muriau amddiffynnol o'n cwmpas ar adegau, i gadw eraill allan o'n ffordd. Rydym i gyd weithiau'n osgoi pethau, yn anwybyddu'r hyn sydd o'n blaenau, yn anghofio yr arall ac eraill. Peth trist yw gorfod cydnabod fod mecanwaith eithrio ar waith yn ein cymunedau ac ynom ni. Diolch byth, fod Duw, fel y gwnaeth Iesu Grist gyda'r dyn dall yn yr hanes yn Ioan 9, yn gweld pawb – pwy bynnag ydym, sut bynnag yr ydym yn edrych ac yn byw, pa bynnag anabledd neu abledd sydd gennym.

Yn Utrecht, agorwyd fy llygaid fwy nag unwaith yn sicr. Ces ganiatâd gan y rhai rwyf wedi'u henwi i rannu eu cenhadaeth. Weithiau, llesol yw cael profiadau newydd a gwahanol. Diolch yn wir i Undeb yr Annibynwyr am fy ngalluogi i elwa a derbyn bendith o'r cyfle.

**Sian Meinir**



# Newyddion o Lanfair

### Haelioni'r Allt-wen



Mae ysgol gynradd Pen-rhys yn ddiolchgar iawn i'n ffrindiau yng nghapel yr Allt-wen am eu cefnogaeth i gasglu cardiau Nadolig a gorchuddion wyau Pasg ar gyfer cystadlaethau ailgylchu ysgolion Rhondda Cynon Taf. Mae'r ysgol wedi ennill y wobr gyntaf o £300 dros nifer o flynyddoedd. Ym mis Ebrill daeth chwech o aelodau o chwaeroliaeth y capel am daith i Llanfair ac yna lawr i'r ysgol i gwrdd â'r plant a'u hathrawon.

### Madagascar

Roedd hi'n fraint ac yn bleser mawr i groesawu Ny Ako atom – criw arbennig o bymtheg o ffrindiau o Fadagascar – ar gyfer cyngerdd yng nghapel Llanfair ar nos Sul 14 Fehefin, a bore trannoeth i arwain gweithdai yn ysgol gynradd Pen-rhys gan rannu eu ffydd, eu diwylliant a thraddodiadau Malagaseg mewn ffordd mor lliwgar a bywiog.

### A Rocha

Fel Eco-Eglwys trwy elusen A Rocha UK, rydym yn falch iawn o'n gardd newydd serchus tu fas i gaffi Llanfair gyda seddau, bwrdd a bocsys wedi eu hadeiladu drwy brosiect arbennig yn ddiweddar, ac mae dwy o'n gwirfoddolwyr, Anne a Jan, wedi plannu llawer o flodau lliwgar.

**Sharon Rees**

# Cenhadon Texas – parhad

bywiog ac egnïol at ei gilydd i chwarae, canu, gwneud crefftau a dysgu am Iesu Grist.

Ar bnawn Mercher daethant draw i weld gwaith Y Gornel Glyd gyda'r digartref yng nghapel y Tabernacl, yr Ais. Mae'r cynllun hwn yn cael ei noddi gan y Tabernacl ond gyda chydweithrediad yr eglwysi Cymraeg yn y brifddinas. Pob pnawn Sul a dydd Mercher fe baratoir lle diogel a phryd o fwyd cynnes i'r rhai hynny sydd am daro heibio. Rhoddir y bwyd yn rhad ac am ddim gan fwyty Eidalaidd Giovani. Fel arfer y mae rhwng 35 a 75 o gwsmeriaid yn dod, sy'n golygu bod llawer o waith trefnu gwirfoddolwyr. Mae dwy eglwys annibynnol yn rhan o'r gwaith sef Minny Street ac Ebeneser. Cawsom gyfle i rannu gyda'r ymwelwyr ein bod yn gweld gwasanaethu ein cymuned fel rhan bwysig o'n cenhadaeth Gristnogol.

# Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol – *Rhan 4*

Ac felly i'r perwyl hwnnw, yn fras, o ran y gwaith ar gyfer eglwysi a chyfundebau, mae dau beth yr hoffen i ei rannu gyda chi o ran y rhaglen waith sydd o'n blaenau dros y cyfnod nesaf, sef y ddau 'D' – y Dynol a'r Digidol. Dyma'r mantra am y cyfnod nesaf. Y mae gennym genhadaeth ddigidol gref i'w datblygu, fydd yn adnodd gwerthfawr ac ymarferol i eglwysi, gweinidogion ac arweinyddion ac y mae gennym ein *pobol* i fod yn closio atynt, yn cynnal ein rhwydweithiau, ac yn cydgerdded â'n gilydd. Mae hyn yn wir ar lefel macro a micro. Dyma'n her ni felly.



### Y dynol

Rydyn ni'n ymwybodol yn Nhŷ John Penri fod yna bellter ymenyddol a daearyddol rhwng y swyddfa a'r eglwysi, ac i raddau, felly y dylai fod, wedi'r cyfan rydyn ni'n eglwysi *Annibynnol*. Ond mae'r ddeinameg brydferth hon yn un bwysig i'w chynnal a'i grymuso mewn cyfnod o ddirywiad. Ein bwriad fel staff yw cymryd y swyddfa i'r cyfundebau a chreu swyddfa symudol Tŷ John Penri am ddeuddydd mewn ardaloedd penodol bob yn awr ac yn y man (yn dilyn Covid rydyn ni'n medru gosod ein swyddfa yn unrhyw le bellach). Bydd *holl* staff yr Undeb ar gael i gwrdd â phobl dros baned, i sgwrsio, i roi cyngor, i drafod unrhyw beth o waith a darpariaeth yr Undeb ac i ni ddod i adnabod ein gilydd yn well. Y mae pobl yn teimlo'r angen am gyswllt gyda ni, a'r gobaith yw y bydd dod i adnabod ein gilydd, i gynnal y gyfeillach ac i annog ein heglwysi yn rhywbeth gwerthfawr i bawb. Rydyn ni yma i annog, i gynnal, i ysgogi, ac i gynghori. Yr ydym ni'n rhwydwaith o eglwysi annibynnol, ac mae'r fenter hon yn cael ei chynnal yn yr ysbryd hwnnw.

Felly, fe gychwynnwyd yng nghyfundeb Meirion a byddwn yn bwrw ymlaen i greu amserlen gynaliadwy ar gyfer hyn dros y flwyddyn a thu hwnt. Mae gennym nifer o ddyddiadau yn eu lle eisoes. Eich Undeb chi ydyw ac rydyn ni'n rhannu'r neges yn gyson, codwch y ffôn, dewch i'n gweld a pheidiwch â bod yn ddieithr. Os nad ydych chi wedi cysylltu i drefnu ein bod ni'n dod atoch, wel cysylltwch. Wrth fwrw ymlaen, byddwn yn monitro hyn i weld a yw hyn yn fenter sy'n gweithio.

### Arolwg cyfundebol

Ynghlwm â hyn (achos mae pob dim yn gysylltiedig onid yw?) yr ydym, ar gais y cyn Ysgrifennydd Cyffredinol Dyfrig Rees, wedi cychwyn ar broses o gynnal arolwg o'r cyfundebau, eu perthynas gyda'r eglwysi a'u perthynas gyda'r Undeb. Yn ysbryd y closio a'r dod i nabod, cafwyd cyfarfod cychwynnol adeiladol o gynrychiolwyr pump o ranbarthau Cymru i drafod sut mae modd i ni gychwyn y sgwrs rhyngom. Sut fedrwn ni weithio gyda'n gilydd, dyna'r amcan. Ac felly'r nod cychwynnol yw bod holiadur byr yn mynd mas i bob cyfundeb yn yr hydref ac yna'n bod ni'n trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ystod 2027 i weld beth yw'r farn a sut mae'r gwynt yn chwythu.

Yr Adran
Gydenwadol

13 Awst 2026
Rhifyn 285 | 286

I ddarllen y cyhoeddiad digidol
*Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

# Tystiolaeth yr Eglwysi yn y Sioe Fawr

Sir Frycheiniog oedd sir nawdd y Sioe Fawr eleni, gyda Gethin a Ceri Havard yn Llywyddion y Sioe. Bu'n sioe lwyddiannus yn ôl yr arfer, gydag oddeutu 50,000 o bobl yn crwydro'r maes bob dydd. Yn ôl yr arfer, cafwyd oedfa yng Nghapel Alffa yn nhref Llanfair-ym-Muallt i agor y sioe yn swyddogol, a hynny eleni dan arweiniad yr Hybarch Eileen Davies, sylfaenydd yr elusen Tir Dewi. Dilynwyd hyn gan Foliant y Maes, sef y Gymanfa Ganu flynyddol, a'r sied ddefaid dan ei sang, a chôr sirol yn cynnwys dros gant o aelodau.

Roedd Cytûn yno gyda'i stondin ar y maes, yn croesawu pawb i mewn am baned a sgwrs. Roedd yna weithgaredd i blant a chyfle, wrth gwrs, i bori yn y stondin lyfrau. Bu criw diwyd yn gweini paneidiau o fore tan nos, gan groesawu tua 1,200 i mewn atom. Cawsom gwmni sawl elusen yn hybu eu gweithgarwch, gan gynnwys Cymorth Cristnogol, A Rocha, Undeb y Mamau, Cyngor yr Ysgolion Sul ac eleni, am y tro cyntaf, elusen newydd o'r enw Golau Gras, sy'n cefnogi merched sy'n dioddef o salwch meddwl mewn ysbytai.

Cynhaliwyd oedfa bob bore am 11 o'r gloch gyda gwahanol bobl yn ei harwain. Ar y dydd Llun band pres Byddin yr Iachawdwriaeth oedd yn arwain y canu, a braf fu cael cwmni'r Gwir Barchedig Cherry Vann, archesgob Cymru, a dreuliodd amser gyda ni ar y stondin. Dydd Mawrth cafwyd sgwrs banel yn trafod gweinidogaeth wledig, a bydd y drafodaeth hon ar gael fel ffilm ar wefan Cytûn yn fuan.

Elfen bwysig o genhadaeth y sioe yw gwaith y caplaniaid maes. Bu 12 ohonynt yn cerdded o gwmpas y maes yn sgwrsio, ac roeddent yn nodi iddynt gynnal dros gant o sgyrsiau sylweddol yn ystod yr wythnos. Gyda'r nos roedd tîm Bugeiliaid y Stryd yn crwydro'r strydoedd, gan gynnig cefnogaeth a chymorth. Ond tristwch yn ystod yr wythnos oedd clywed y newyddion fod un dyn ifanc wedi colli ei fywyd mewn maes gwersylla cyfagos, a chofiwn am ei deulu yn ein gweddïau.

Mae sawl stondin arall hefyd yn weithredol ar y maes, yn eu mysg babell fyrlymus Show Jesus, uned gan y Mudiad Efengylaidd, a stondinau lles a iechyd meddwl Tir Dewi a'r Farming Community Network (FCN).

Diolch am bob un tystiolaeth, ac am y cyfle i fod yno yn halen a goleuni, yn rhannu golau Crist.

*Aled Davies*




*Band Byddin yr Iachawdwriaeth yn arwain y defosiwn*




*Y Gwir Barchedig Cherry Vann, archesgob Cymru, yn arwain y defosiwn*




*Aelodau'r panel yn y sesiwn i drafod cenhadaeth wledig*




*Ymlacio a sgwrsio dros baned*

*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

# Y Gymanfa Gyffredinol

## Cymanfa flynyddol Eglwys Bresbyteraidd Cymru a gynhaliwyd ym Mhorthmadog



*Y cynrychiolwyr yn sefyll o flaen Capel y Porth, Porthmadog*

"Llawenhewch bob amser. Gweddïwch yn ddi-baid. Ym mhob dim rhowch ddiolch, oherwydd hyn yw ewyllys Duw yng Nghrist Iesu i chwi."

Dyma thema'r Gymanfa eleni, ac ymhelaethodd Hedd Morgan, Capel y Bont, Pontypridd, arni wrth inni ymgynnull ar gyfer ail ddiwrnod y Gymanfa, ar 7 Gorffennaf, gan ddweud, 'Er yr heriau, gallwn lawenhau yn yr Arglwydd a chodi ein golygon uwchlaw ein hamgylchiadau.'

Y noson cynt, nos Lun, 6 Gorffennaf, cafodd y Gymanfa wledd o lawenydd ar ddawns a chân wrth i griw Ny Ako o Fadagascar gynnal cyngerdd a chyflwyniad yn y Ganolfan, Porthmadog, i gyd-fynd â'r Gymanfa.



### Ailstrwythuro

Fe ddechreuodd Cymanfa Gyffredinol EBC yng Nghapel y Porth, Porthmadog, bnawn Llun, 6 Gorffennaf, gyda gwasanaeth dan ofal y Llywydd, Glynis Owen. Yna, aed ymlaen yn syth i gyflwyno a thrafod materion ynghylch ailstrwythuro'r Cyfundeb, yn dilyn yr ymgynghori eang a gafwyd eisoes ar y cynigion. 'Nid strwythurau fydd yn adfywio'r eglwys, ond pobl fel chi a fi', a 'Cyfle i ailddarganfod ein cenhadaeth a'n blaenoriaethau fel eglwys,' meddai'r Llywydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol wrth gyflwyno.

Bu Steve Wynn, Moreton, o'r Adran Adnoddau ac Eiddo, yn amlinellu goblygiadau'r ailstrwythuro o ran adnoddau mewn staff. Eglurodd fod yr argymhellion yn anelu at fod yn gost niwtral.

Wayne Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweinidogaethau, fu'n ein hatgoffa am gynlluniau sylfaenwyr y Corff wrth sôn am berthynas teulu'r Corff heddiw â'r gweithwyr a'r prosiectau er mwyn cynnig cefnogaeth ac atebolrwydd iddyn nhw o fewn y strwythur newydd.

Dr Elwyn Richards, Bangor, a grynhodd yr argymhellion drwy weld eu bod 'yn cynnig newid trwy ryddhau egni ac adnoddau fydd yn newid ein sefyllfa er gwell'.

Cynigiwyd a derbyniwyd yr argymhellion o dan naw pennawd yn cwmpasu holl waith y Corff, gan roi caniatâd i dreialu trefniadau newydd yn ystod 2027.

### Y Darlithoedd

Cyflwynwyd y Ddarlith Hanes eleni gan Dr Gareth Evans-Jones o Brifysgol Bangor ar y testun: 'O Gapel Celyn i Balesteina'. Darlith oedd hi ar y gydwybod Gristnogol Anghydffurfiol Gymreig. Dechreuodd drwy ddyfynnu'r ddihareb: 'Uchaf Lys, Llys Cydwybod' a darfod gyda'r her: 'Beth am guro wrth ddrws cydwybod a pheidio ag ofni heriau moesol sy'n ein wynebu bob un?'

'Beth sydd yn dod i ben yng Nghymru heddiw?' oedd cwestiwn agoriadol Dr Andras Iago yn y Ddarlith Davies eleni, yn dwyn y teitl: 'Methodistiaeth Galfinaidd a'r Gymru Newydd'.
Ewch i sianel YouTube EBC i wylio a gwrando ar y ddwy ddarlith. Mae'r ddau ddarlithydd yn archwilio pwy ydym ni bellach a beth fu'r dylanwadau arnom ninnau fel Cristnogion unigryw o fewn tir Cymru ond yn perthyn hefyd yn agos i gorff yr Arglwydd Iesu ledled y byd.

O Gapel Celyn i Balesteina: y gydwybod Gymreig? Gareth Evans Jones https://youtu.be/gL60Gh7wJG4?si=pdITzCMlFOaU8mPw

Methodistiaeth Galfinaidd a'r Gymru Newydd, Andras Iago: https://youtu.be/HuCsNVoUf6s?si=MXnbZ27UDcn29bzh

### Trafodaeth

Cafwyd trafodaeth frwd fore Mawrth am y 'cyfraniad Cyfundebol' wrth argymell defnyddio cyfalaf dros ben

i helpu i dalu costau gweinidogaeth a chenhadaeth. Penderfynwyd gofyn am 65% yn unig gan yr aelodau a'r eglwysi o'r hyn oedd ei angen arnom fel Cyfundeb i dalu'r holl gostau ar gyfer 2027.

Bu trafod agored ac onest hefyd ar y mater o roi caniatâd i'r eglwysi sydd ag adeiladau rhestredig gan Cadw i geisio am grantiau o Gronfa Treftadaeth y Loteri ar eu cyfer. Bydd rhagor o drafod yn y Sasiynau cyn dod i benderfyniad ar y mater cynhennus yma.

## Gweinidogaeth a chenhadaeth

Mae 22% o oedolion a 32% o blant yng Nghymru'n byw mewn tlodi, a 135,000 o blant Cymru'n byw â chyflwr iechyd meddwl – dyma'r ffigurau a ddefnyddiodd Owen Griffiths o Henaduriaeth Saesneg y De-ddwyrain wrth sôn am y gwaith estyn allan yn rhai o'n henaduriaethau yn wyneb yr angen mawr yma yn ein gwlad. Cyfeiriodd hefyd at brosiectau fel 'Dillad Gobaith' a lloches i'r digartref yng Nghasnewydd sy'n defnyddio hen adeiladau eglwysig fel cartrefi i'r gwaith. Cyflwynodd yr amcan o sefydlu elusen newydd 'Cyswllt Gobaith Connect' i weithredu ar ran henaduriaethau cyfrwng Cymraeg a Saesneg i gynnig cefnogaeth a datblygu'r gwaith estyn allan yma ymhellach.

Nia Williams, arweinydd Tîm Plant ac Ieuenctid y Cyfundeb, fu'n holi Lois Franks o Donypandy, sydd wedi ei phenodi i ddatblygu Canolfan Coleg y Bala ar gyfer cyfnod newydd ac a fydd yn symud yno gyda'i theulu. Rhoddodd Lois ddiolch am gyfraniad y Ganolfan a'r gwaith yno hyd yma i waith y Deyrnas yng Nghymru, gan sôn am gynlluniau i ehangu'r gwaith.

Cyfeiriodd Angharad Clwyd at y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig yn y Ganolfan i'n plant a'n hieuenctid, gwaith sydd wedi datblygu a pharhau ers y dyddiau cynnar gyda Dafydd Owen, Caplan Ieuenctid cyntaf yr enwad. Cyflwynwyd y dyfodol a'r gwaith i gyd i'r Arglwydd mewn gweddi gan Nia.

Canu 'pen-blwydd hapus' a wnaed wedyn i eglwys Noddfa, Caernarfon, wrth wahodd Mererid Mair i rannu am y dathlu sydd yno eleni. Dechreuodd y Chwaer Emily Roberts y gwaith 70 mlynedd yn ôl, a sefydlwyd eglwys yno 60 mlynedd yn ôl. Mae Mererid ei hun wedi bod yno ers 20 mlynedd, a diolchodd i'r Arglwydd am yr holl waith sydd wedi digwydd yno dros y blynyddoedd.

Gwelwyd arddangosfa hardd o adnoddau Adran y Chwiorydd yn y Gymanfa, a chyflwynwyd y gwaith gan Carys Davies ac Eirian Roberts. Diolchwyd a dymunwyd fendith i Carys wrth iddi ymddeol o dîm gwaith y Chwiorydd ddiwedd Awst.

Yn yr un modd, cydnabuwyd gwasanaeth Andy Britton am dros 30 mlynedd fel Pennaeth Ariannol y Cyfundeb. Bydd yntau'n camu i lawr o'r rôl honno yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

## Cydnabod haelioni

Wrth rannu am India a Manipur, diolchodd Nan Powell-Davies, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, am y gwaith gwehyddu cywrain a luniwyd eleni yn arbennig ar gyfer y Gymanfa gan yr artist Cefyn Burgess. Roedd y gwaith i'w weld yn y llieiniau ar y byrddau ac yng ngwisgoedd y Llywydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol. Mae'r gwaith yn adlewyrchu'r berthynas rhwng EBC a Synodau'r Eglwys Bresbyteraidd yng Ngogledd-ddwyrain India, gyda phatrymau o Fryniau Casia, Mizoram a Chymru'n amgylchu arwyddlun y Cyfundeb.

Diolchwyd i bawb am eu hymdrechion yn sicrhau cyfraniadau o dros £48,000 tuag at gefnogi gwaith i ddygymod efo effeithiau'r gwrthdaro ym Manipur ac i gefnogi gwaith adfer a chymod mawr y Synodau yno. Soniodd Nan am ei hymweliad diweddar â Gogledd-ddwyrain India ac am y fraint o gael sefyll efo'r eglwys yno.

## Cyfiawnder a heddwch

Rhannodd Bryn Williams am yr apêl gweddi a sefyllfa'r eglwys ym Manipur, a'r erledigaeth a'r tensiwn sy'n parhau yno wrth i dri o weinidogion gael eu llofruddio ym mis Mai a phentrefi wedi eu llosgi ers hynny hefyd. Condemniodd bob un sy'n creu rhyfel a gwrthdaro yn y byd ac yn ei hyrwyddo – ym Manipur a'r India, ym Mhalesteina ac Israel, yn Iran a'r Unol Daleithiau.

Rhannodd Anna Jane Evans am ei hymweliad ag Eglwys Bresbyteraidd Taiwan hefyd a'i hamser yn eu Cymanfa Gyffredinol a'r Fforwm Ecwmenaidd yno. Cadarnhawyd ein safiad gyda'r Eglwys honno mewn solidariaeth yn erbyn pob grym sy'n ceisio difa eu hunaniaeth.

## Cymun a choffâd

John Roberts, Aberystwyth, a'n harweiniodd at Fwrdd y Cymun yn y Gwasanaeth Cymun a Choffâd eleni. Cawsom ein herio ganddo i dorri bara yng nghanol ein byw bob dydd.

Yn y gwasanaeth hwnnw, coffawyd y gweinidogion canlynol a fu farw yn ystod y flwyddyn:

Parchg Elwyn Pryse
Parchg Arthur Meirion Roberts
Parchg Dafydd H Owen, BSc, BD
Parchg John Owen, BA, BD
Parchg Philip de la Haye
Parchg Gareth Edwards, BA, BD
Parchg Marcus Robinson, BA, RN

Darllenwyd teyrngedau i'r pedwar ohonynt a fu'n llywyddion y Gymanfa Gyffredinol: Gareth Edwards, Marcus Robinson, Dafydd Owen a John Owen. Diolchwyd i Dduw amdanyn nhw i gyd mewn gweddi gan Ian Hayward, y Fenni, gan ofyn cysur a chymorth yr Arglwydd i'w teuluoedd.

Roedd lle mawr gennym ni i gyd i ddiolch i'r unigolion gwirfoddol a chyflogedig sy'n sicrhau bod y Gymanfa'n rhedeg yn esmwyth; diolch i Dduw am y cyfieithwyr, y cofnodwyr, technegwyr, gweinyddwyr a'r cyfeilydd a.y.y.b. Diolch arbennig i Gapel y Porth a'r ofalaeth a'u gweinidog, Chris Prew, am y croeso mawr a'r gweini hyfryd arnom yn ystod y deuddydd ym Mhorthmadog.

# William Lewis, Abermawr, Sir Benfro

## Cyfrol newydd gan Eirwyn Vaughan

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld ag ardal enedigol yr emynydd Wiliam Lewis eleni, fe aeth Eirwyn Vaughan, sy'n perthyn i William Lewis, ati i groniclo'i hanes mewn cyfrol hwylus. Mae'r gyfrol 96 tudalen hon ar gael gan yr awdur am £8, yn cynnwys cludiant. Mae modd archebu copi trwy yrru neges at: tomfychan@gmail.com

### Dyma ychydig o hanes William Lewis, Llangloffan

Cafodd William Lewis ei eni yn ardal Mathri, tua'r flwyddyn 1740. Does dim sicrwydd am ddyddiad ei eni am nad oes gofnod swyddogol. Does dim cofnod ychwaith o enw ei rieni. Mae ei hanes o fewn ei gapel, sef Llangloffan, yn gliriach. Mae Llangloffan yn drydydd ar y podiwm o gapeli cyntaf y Bedyddwyr yng Nghymru. Cafodd William ei fedyddio ar yr 16eg o Chwefror 1754. Felly, mae'n debygol ei fod tua 14 oed ar y pryd. Drannoeth ei fedydd, fe'i derbyniwyd yn aelod yn y capel.

Rydym yn gwybod bod ganddo frawd o'r enw Thomas Lewis, a fu'n weinidog yn Llangloffan rhwng 1780 ac 1823. Roedd Thomas yn un o dri gweinidog a dreuliodd 43 mlynedd yn arwain yn Llangloffan. Yn ddiddorol, ceir enw William fel tyst priodas ei frawd. Y rheol ar y pryd oedd mai dim ond gweinidog neu swyddog/diacon fyddai â'r hawl i fod yn dyst. Felly, mi fedrwn gasglu ei fod nid yn unig yn aelod ond hefyd yn ddiacon yn Llangloffan yn ifanc iawn.


Bu William yn byw gyda'i deulu mewn un o'r ddau fwthyn bach yn agos at draeth Abermawr. Yno yn ei gartref, bu'n dilyn ei grefft fel gwehydd carped. Mae'n debyg iddo briodi merch o'r enw Phoebe o ardal Abercastell, sef traeth braf, 3.5 milltir o Abermawr ar hyd llwybr yr arfordir! Ganwyd iddynt ddau blentyn: mab a merch, sef William a Maria.

Aeth William, y mab, i'r môr yn ifanc iawn. Mae'n debyg iddo gael ei orfodi i ymuno â'r llynges frenhinol. Dywedir ei fod wedi ymladd yn yr Aifft pan oedd yn ddim ond 16 mlwydd oed. Yn anffodus, daeth trasiedi i fywyd y teulu pan fu farw'r mab wedi iddo syrthio dros ochr y llong i'r dŵr. Ac yntau'n ddim ond 16 oed! Felly, yr unig wyrion a gafodd William a Phoebe oedd plant eu merch, Maria. Priododd Maria â bachgen o'r enw David Bowen, a chawsant ddau o blant: merch o'r enw Phoebe, a enwyd ar ôl ei mam-gu, a bachgen o'r enw David, a enwyd ar ôl ei dad.

Gelwir William yn 'William Lewis, Llangloffan' am mai dyna oedd ei addoldy ar hyd ei oes. Fe'i gelwir hefyd yn 'William Lewis, Abermawr' am mai yno y bu fyw gydol ei oes fer. Rydym yn sôn am bellter o dair milltir a hanner o'i gartref i'r capel. Tystiodd ei ferch mai dim ond eira trwm neu'r glaw'n pistyllo lawr fyddai'n ei rwystro rhag mynd i'r capel. Roedd cadw'r Saboth a phrydlondeb mewn moddion gras yn rhan annatod o'i natur. Ni allai oddef i ddim y medrid ei wneud ar ddiwrnod arall gael ei wneud ar y Sul. Yn ogystal, ni fedrai oddef y syniad o gyrraedd oedfa'n hwyr. Dywedai o hyd: 'Mae'n llawer hawddach bod yn gyntaf, na bod yn ddiwethaf i gyrraedd y cwrdd'. Gan nad oes sôn am geffyl na beic yn ei hanes, rhaid casglu ei fod wedi cerdded i bob oedfa gan adael y tŷ mewn llawn bryd i fod y cyntaf i gyrraedd y capel. Efallai bod ei esiampl yn bwysig iawn, yn yr oes Zoom ôl-Covid sydd ohoni, â phobl yn dal i'w chael yn anodd codi o'r tŷ a theithio mewn car modur hyd yn oed!

Mae'n hollbwysig cofio bod William Lewis wedi byw ar adeg o ddiwygiadau yn ail hanner y ddeunawfed ganrif. Er nad oes sôn am ddiwygiad yn ardal capel Llangloffan ac ardal Mathri yn ystod oes William Lewis, mae'n bosib iawn bod bwrlwm a dylanwad diwygiad o'r fath a gaed yn Llangeitho yn 1762 wedi cyrraedd gogledd Shir Benfro.

Gwehydd oedd yr emynydd wrth ei alwedigaeth, a dywedir ei fod yn grefftwr artistig a deheuig iawn. Gallai wau carped llawn o luniau a lliwiau o bob math yn berffaith. Bu uchelwyr Shir Benfro yn prynu ei waith er mwyn harddu eu plasau gyda'i garpedi 'perffaith'. Felly, fe enillodd barch mawr fel gweithiwr da ac onest. Mae'n amlwg ei fod ar y blaen i weithwyr eraill y gymdogaeth yn ei faes arbenigol. Roedd ganddo garped mawr ar y gweill pan fu farw. Plas Tregwynt oedd wedi archebu'r carped hwnnw er mwyn addurno un o'i stafelloedd gorau. Yn anffodus, bu farw William Lewis cyn iddo fedru gorffen y




carped. Bu Plas Tregwynt yn chwilio ym mhob man yn y fro am rywun i orffen y prosiect, ond heb lwyddiant. Yn y diwedd, llwyddwyd i gael gwehydd o bell i gwpla'r gwaith.

Mae nifer o emynau William Lewis yn gyfarwydd. Dim ond tri emyn o'i waith sydd yn *Caneuon Ffydd*: 'Aed grym efengyl Crist' (rhif 254); 'Y mae trysorau gras' (rhif 310); a'r mwyaf adnabyddus ohonynt, 'Cof am y cyfiawn Iesu' (rhif 500). Ond mae eraill yn gyfarwydd am eu bod wedi eu cynnwys yn llyfrau emynau blaenorol y gwahanol enwadau.

Er gwaetha'r holl waith celfydd a wnaeth yn ei ardal, a'r ddawn oedd ganddo i ysgrifennu emynau, dyn tlawd iawn oedd William ar lefel faterol. Serch hynny, roedd William Lewis yn ei gyfrif ei hun yn gyfoethog trwy'r Arglwydd Iesu Grist, ac yn ystyried trysor yr Efengyl yn llawer pwysicach nag unrhyw drysor daearol. Mae cwpled cyntaf un o'i emynau yn dangos hynny'n glir iawn:

> Y mae trysorau gras
> Yn llifo fel y môr,
> Mae yn fy annwyl Frawd
> Ryw gyfoeth mawr yn stôr:
> Ymlaen yr af er dued wyf,
> Mae digon yn ei farwol glwyf.

Mae'n sicr fod byw yng nghlyw'r tonnau gerllaw traeth Abermawr wedi ei helpu gyda'r cwpled agoriadol. Mae'n cyfleu bod y stôr o ras sydd gan Dduw ar gyfer Ei bobl yn ddihysbydd, yn ddi-ben-draw. Mae gras Duw'n gyson, fel y tonnau sy'n ddylanwadol ac yn rymus o ddydd i ddydd. Fel y dywedais, dyn tlawd oedd William Lewis yn faterol, ond serch hynny, ystyriodd ei hun yn dra chyfoethog yn yr Arglwydd Iesu.


# Testament Newydd William Tyndale

## Dathlu 500 mlynedd cyhoeddi Testament Newydd Saesneg Tyndale




MAE eleni'n flwyddyn nodedig yn hanes cyfieithu'r ysgrythurau i'r Saesneg. Pum can mlynedd yn ôl i'r flwyddyn hon y cyhoeddwyd Testament Newydd William Tyndale yn yr iaith honno. Ganwyd William Tyndale (*c*.1494) yn Swydd Caerloyw. Yn ieithydd talentog, meistrolodd o leiaf saith o ieithoedd. Graddiodd yn Rhydychen a bu'n astudio yng Nghaergrawnt. Roedd yn offeiriad ac yn ysgolhaig o fri. Fe'i hargyhoeddwyd mai'r Beibl yn unig a ddylai benderfynu arferion ac athrawiaethau'r eglwys ac y dylai credinwyr allu darllen y Beibl yn eu hiaith eu hunain. Yn y cyfnod hwnnw Lladin oedd yn unig iaith awdurdodedig ar gyfer yr Ysgrythurau yng Ngorllewin Ewrop.

Dechreuodd Tyndale weithio ar gyfieithiad o'r Testament Newydd yn gynnar yn y 1530au. Fodd bynnag, wynebai wrthwynebiad mawr a chafodd ei atal rhag gwneud hynny gan yr awdurdodau eglwysig. Barnwyd bod ei waith yn herio awdurdod clerigol, yn hyrwyddo syniadau Protestannaidd, ac yn gwrthod arferion traddodiadol yr Eglwys Gatholig. Sylweddolodd Tyndale na allai gyflawni ei nod yn llwyddiannus yn Lloegr. Aeth i'r Almaen yn 1524 i gwblhau'r gwaith, gan dderbyn cefnogaeth ariannol gan fasnachwyr cyfoethog Llundain. Ym 1525, tra oedd yn byw yn Wittenberg, cwblhaodd Tyndale ei gyfieithiad. Ymddangosodd argraffiad rhannol yn 1525, wedi'i argraffu yn Cologne, ond gorfodwyd Tyndale i ffoi cyn y gellid ei gwblhau. Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf llawn ohono yn 1526 yn Worms, yr Almaen. O'r fan honno cafodd yr 'argraffiadau wythblyg' bach eu smyglo i mewn i Loegr drwy eu cuddio mewn nwyddau, barilau, bwndeli o gotwm, a sachau o flawd. Gwrthwynebai Harri VIII y cyfieithiad a chafodd ei gondemnio gan swyddogion yr eglwys. Cafodd miloedd o gopïau eu cipio gan yr awdurdodau a'u llosgi'n gyhoeddus! Roedd cyfieithiad Tyndale yn arbennig oherwydd mai hwn oedd y Beibl Saesneg cyntaf i ddefnyddio'r testunau Hebraeg a Groeg gwreiddiol yn hytrach na'r Fwlgat, y cyfieithiad Lladin o'r Beibl a wnaed gan Sant Sierôm yn y bedwaredd ganrif.



The Gospell of S. Mathew. Fo .j.

The First Chapter.

Thys is the boke off the generacion off Jhesus christ the sonne of David/ the sonne also of Abraham.
Abraham begat Isaac:
Isaac begat Jacob:
Jacob begat Judas and hys brethren:
Judas begat Phares and zarã off thamar:
Phares begat Esrom:
Esrom begat Aram:
Aram begat Aminadab:
Aminadab begat Naasson:
Naasson begat Salmon:
Salmon begat Boos of Rahab:
Boos begat Obed of Ruth:
Obed begat Jesse:
Jesse begat David the kynge:
David the kynge begat Solomõ of her that was the wyfe of Vry:

Cafodd Tyndale ei ysbrydoli'n drwm gan gyfieithiad Almaenig Martin Luther, a ddefnyddiodd fel model i'w waith. Dylanwad mawr arall oedd gweithiau Desiderius Erasmus. Cyfieithiad Tyndale hefyd oedd yr un Saesneg cyntaf i ddefnyddio technoleg y wasg newydd. Roedd dyfodiad y wasg agraffu yn golygu bod modd lledaenu'r Ysgrythurau a hynny mewn modd fforddiadwy. Helpodd hyn hefyd i ledaenau syniadau'r Diwygiad Protestannaidd yn gyflym.

Diwygiodd Tyndale ei Destament Newydd mewn argraffiadau diweddarach, gyda diwygiadau nodedig a gyhoeddwyd yn 1534 a 1535 i gywiro camgymeriadau a sicrhau cywirdeb. Pan oedd y Testament Newydd wedi'i gwblhau, dechreuodd Tyndale weithio



ar yr Hen Destament. Cyhoeddwyd y Pumllyfr yn Marburg yn 1530, gyda phob un o'r pum llyfr yn cael ei gyhoeddi a'i ddosbarthu ar wahân. Parhaodd i weithio ar gyfieithu'r Hen Destament ond cafodd ei garcharu yn Antwerp cyn iddo gael ei gwblhau. Costiodd ei gredo'n ddrud iawn iddo. Wedi'i gyhuddo a'i gael yn euog o heresi, cafodd ei gondemnio i farwolaeth. Fe'i tagwyd ac yna'i losgi wrh y stanc yn Vilvoorde yn 1536.

Mae gwaith Tyndale o bwys hanesyddol nid yn unig am ei eglurder ieithyddol a'i hygyrchedd i bobl gyffredin ond hefyd ei ddylanwad ar Feiblau Saesneg diweddarach, gan gynnwys Fersiwn y Brenin Iago. Dim ond tri chopi o argraffiad gwreiddiol 1526 sy'n goroesi heddiw, ac maent wedi'u cadw yng Nghadeirlan Sant Paul, Llundain; yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain, ac yn Llyfrgell Genedlaethol Württemberg, yr Almaen. Dylanwadodd ei waith yn fawr hefyd ar yr iaith Saesneg yn gyffredinol a bu'n gyfrwng i'w chyfoethogi. Dim ond unwaith mae'r testun sy'n eiddo i Eglwys Sant Paul wedi bod ar gael i'r cyhoedd ei weld, yn 2017, ac ni chafodd ei weld erioed o'r blaen fel rhan o arddangosfa agored. Mae'r Eglwys Gadeiriol yn mynd i drafferthion mawr i amddiffyn ei gopi drwy ddefnyddio casyn arddangos sy'n ysgafn ac yn ddiogel rhag bwledi â'r tymheredd dan reolaeth. Bydd yr arddangosfa 'A Dangerous Calling – 500 Years of William Tyndale's New Testament' i'w gweld yn Eglwys Gadeiriol Sant Paul, Llundain, tan ddiwedd mis Chwefror 2027.

(gyda diolch i'r *Ddolen*, Papur Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin)

# Pobl Ifanc a'r Eglwys

gan Robyn O'Connor (Gweithiwr Plant ac Ieuenctid Henaduriaeth y De-ddwyrain; cyfieithwyd o'r Saesneg)

Yn 2021, nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol mai'r bobl oedd yn disgrifio'u hunain fel 'Cristnogion' oedd y grŵp â'r oedran cyfartalog uchaf – 51 oed, o'i gymharu â 40 oed ar gyfer poblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr.

Mae'r eglwys Gristnogol yn colli cysylltiad â theuluoedd a phobl ifanc, ond nid oes rhaid iddi hynny fod felly. Mewn gwirionedd, ni all fod felly os ydym am weld dyfodol i'r eglwys. Nid yw buddsoddi yn y genhedlaeth nesaf yn rhywbeth 'braf i'w wneud' yn unig; dyma'r UNIG ateb i'r Eglwys ar gyfer cynaliadwyedd a thwf hirdymor. Heb bobl ifanc, rydym yn troi'n amgueddfa yn hytrach nag yn ffordd o fyw. Rhaid i ni barhau i fod yn berthnasol i'r genhedlaeth iau heb gyfaddawdu ar ein gwerthoedd fel Cristnogion.

Nid yw dod â phobl ifanc a theuluoedd i'r eglwys yn ymwneud â chynyddu'r niferoedd yn ein hadeiladau yn unig; mae hefyd yn faes cenhadol yn ein mysg. Drwy gefnogi'r genhedlaeth nesaf i dyfu mewn gwerthoedd tebyg i rai Crist, gallwn ddylanwadu ar lunio cymdeithas a chynnig doethineb i genhedlaeth goll sy'n chwilio am gyfeiriad. Yn y byd cyflym hwn, lle mae gwirionedd yn cael ei ddiffinio gan yr hyn y mae unigolyn yn ei gredu yn hytrach na chan ffeithiau sydd wedi'u sefydlu, mae galw dybryd am ganllawiau – rhai cadarn a di-sigl. Yn wir, y grwpiau crefyddol sydd fel pe baent yn denu'r nifer mwyaf o bobl ifanc yw'r rhai sydd â rheolau llym a chlir, ac sy'n ddigyfaddawd yn eu safbwyntiau. A dyna beth y gallwn ni, fel corff Crist, ei gynnig fel rhodd i'r rhai sy'n chwilio: sicrwydd, diogelwch a gwirionedd cadarn nad yw'n cuddio'i wyneb.

Mae'r Efengyl yr un mor berthnasol heddiw ag yr oedd ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Mae'r Beibl yr un mor berthnasol ag yr oedd ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Mae pobl eisiau gweld beth sy'n gwneud i Gristnogion sefyll allan, nid pa mor agos y gallant fod at gymdeithas y maen nhw eisoes yn ei hadnabod. Dangoswch iddyn nhw sut mae ffydd yn berthnasol i'w bywyd a bydd yn dod yn rhan o'u bywyd.

Ond sut ydym ni'n gwneud hynny? Sut ydym ni'n cysylltu â phlant a phobl ifanc heddiw? Mae llawer o bobl yn gweld hyd yn oed y syniad yn frawychus neu'n flinedig wrth feddwl am yr egni sydd gan ieuenctid. Diolch byth nad rhestr hir o gymwysterau, teclynnau technolegol na lefelau ffitrwydd gwych yw'r ateb. Mae yna egwyddorion craidd y gellir eu cymhwyso, waeth beth yw maint eich eglwys nac oedran y rhai sy'n ymwneud â'r gwaith. Bydd rhai'n ein hannog i addasu'r ffordd yr ydym yn meddwl am yr eglwys, a byddwn yn debygol o ddarganfod ein bod eisoes yn gwneud rhai pethau o'r fath bob dydd heb hyd yn oed sylweddoli hynny. Nid yw mynychu'r eglwys yn rhywbeth diwylliannol bellach; rhaid inni greu amgylchedd croesawgar a chyfforddus, addas ar gyfer ein cymdeithas heddiw, ond gan gynnal y gwerthoedd craidd.

**Cerddoriaeth**: Pa fath o ganeuon rydyn ni'n eu canu? Ai emynau traddodiadol ydyn nhw, rhai o'r ddau ddegawd diwethaf, neu gymysgedd o ganeuon? Ydy'r geiriau ar gael yn rhwydd, ynghyd â cherddoriaeth sy'n hawdd ei chlywed a'i dilyn? Mae llawer o bobl yn teimlo'n anghyfforddus yn canu caneuon nad ydyn nhw'n gwybod eu geiriau, neu sydd mewn arddull nad ydyn nhw wedi arfer ei chlywed. Os mai dim ond emynau traddodiadol rydych chi'n eu canu, allech chi gynnwys o leiaf un gân 'fodern' o fawl yn eich gwasanaeth i apelio at grŵp gwahanol o bobl?

Os oes aelodau o'ch eglwys sy'n gallu chwarae offerynnau, gallech ofyn iddyn nhw gymryd rhan yn y gwasanaeth o bryd i'w gilydd i greu sain wahanol. Neu gallech chwarae cerddoriaeth o CD neu gyfrifiadur i gyd-fynd â'r caneuon. Pwy a ŵyr, efallai y byddwch chi eich hun yn darganfod hoff gân newydd! Os ydyn nhw'n teimlo'n anghyfforddus yn canu, anogwch bobl i wrando yn unig ac ymgolli yn y geiriau a'r gerddoriaeth. Gallech osod blwch ar gyfer ceisiadau am emynau neu ganeuon mewn man cyfleus yn y capel fel y gall pobl gynnig awgrymiadau.

**Yr adeilad**: Gwnewch yr adeilad yn groesawgar cyn i rywun hyd yn oed gerdded drwy'r drws. Gosodwch arwyddion clir, yn enwedig ar gyfer pethau angenrheidiol fel toiledau, y gall fod yn anodd gofyn ble maen nhw. Ychwanegwch luniau fel y gall y rhai nad ydynt yn darllen ddeall hefyd. Rhowch berson cyfeillgar wrth y drws i groesawu pobl ac ateb cwestiynau. Trowch y goleuadau ymlaen y tu allan i'r drws a/neu yn y fynedfa fel nad yw'n teimlo'n dywyll pan ddaw rhywun i mewn. Neilltuwch le a gweithgareddau i deuluoedd â phlant i ddiddanu'r plant yn ystod y gwasanaeth.

**Bod yn Agored**: Gall hyd yn oed syllu mewn modd cyfeillgar ddychryn pobl ifanc, ac mae hyn yn wir am wneud sylwadau ar wisg neu iaith hefyd. Byddwch yn agored i'r syniad efallai eu bod yn gwisgo'n wahanol ac yn defnyddio geirfa nad ydych wedi'i chlywed o'r blaen. Dydi hynny ddim yn golygu ei bod yn anghywir.

**Iaith hygyrch**: Os cawsoch chi eich magu yn yr eglwys, rydych chi'n gwybod sut mae'r gwasanaeth yn gweithio ac mor gyfarwydd â'r Beibl fel ei bod hi'n hawdd anghofio y gall hyn fod yn fyd hollol newydd i ymwelwyr. Cymerwch yn ganiataol nad oes ganddyn nhw unrhyw wybodaeth cefndir. Felly, byddai cael taflen yn egluro trefn y gwasanaeth a beth i'w ddisgwyl yn ddefnyddiol. Gwnewch fersiwn sy'n addas i blant hefyd.

Ydych chi wedi edrych ar y geiriau sy'n cael eu defnyddio yn y gwasanaeth ac a fyddai'n bosib eu diweddaru i fod yn gliriach i'r rhai nad ydyn nhw'n gyfarwydd ag iaith y Beibl? Eglurwch ychydig am yr emynau a'r darnau o'r Beibl rydych chi'n eu darllen, neu o leiaf dywedwch ble i ddod o hyd iddyn nhw. Os oes gennych chi sgrin, dangoswch y darlleniadau a geiriau'r emynau arni ar gyfer rhai sydd am ddarllen gyda chi. Ychwanegwch ddelweddau neu bropiau at eich gwasanaeth; mae hyn yn apelio at blant a phobl o bob oed!

**Arddull hygyrch**: Rydym i gyd yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd, yn blant ac yn oedolion. Felly, beth am wneud y profiad eglwysig mor ddiddorol ac mor berthnasol i'r ffordd y mae pobl yn meddwl â phosibl? Gallech gynnwys gwaith lliwio a chrefftau, defnyddio propiau neu fideos, cymharu'r darlleniadau â bywyd bob dydd, ac annog (ond peidiwch â gorfodi) y gynulleidfa i gymryd rhan. Mae hyn yn creu'r teimlad fod ffydd a'r eglwys yn ddiddorol, yn hytrach na bod yn brofiad goddefol yn unig. Ac os yw pobl yn teimlo'u bod yn rhan o'r gweithgaredd, fe fyddan nhw'n cofio ac fe fyddan nhw'n dod yn ôl.

# Adroddiad am waith hyfforddi

*Yn ystod Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2026, fe gyflwynodd y Parchg Carwyn Siddall, Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu'r Undeb ei adroddiad am yr hyn fu'n digwydd yn ystod y flwyddyn. Dyma grynodeb o'r cynnwys.*

Y ddwy brif wythïen sydd wedi bod ar waith gennyf ydi parhau i ddatblygu hyfforddiant i'n myfyrwyr, a datblygu'r adnodd hyfforddi digidol.

### Myfyrwyr

Gwelwyd nifer o fyfyrwyr yn cwblhau hyfforddiant gennym, neu drwy ein partneriaethau â cholegau neu enwadau eraill. Mae gennym un myfyriwr sydd ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer cymhwyso fel pregethwr cynorthwyol cydnabyddedig. Mae gennym ddau sydd wedi bod yn dilyn hyfforddiant fel ymgeiswyr am y weinidogaeth ordeiniedig, a hyfrydwch mawr yw cyhoeddi eu bod bellach wedi cwblhau'r hyfforddiant academaidd disgwyliedig yn llawn, a'r ddau bellach yn agored i dderbyn galwad. Y ddau yw Arwyn Owen Hughes a Sian Meinir. Dros gyfnod o ddwy flynedd a hanner, cwblhaodd y ddau y modiwlau disgwyliedig gennym, yn cynnwys modiwlau Beiblaidd, Bugeiliol, Hanes yr Eglwys, Addoli a Phregethu a Rhan o'r Byd. Bu iddynt hefyd gwblhau'r modiwl ymarferol a rydd gyfle i'r myfyrwyr dreulio cyfnod o dri mis mewn eglwys neu eglwysi er mwyn cael cysgodi gweinidogaeth yr eglwysi hynny, gan ddaearu'r hyn a ddysgwyd ganddynt. Treuliodd Sian ei chyfnod o dri mis yn y Tabernacl, Caerdydd, tra y bu i Arwyn dreulio cyfnodau mewn gwahanol leoliadau, sef y Tabernacl Porthaethwy, Gofalaeth Bro Llanuwchllyn a'r Cylch, Gofalaeth Bro Nant Conwy, ac yna Berea Pentreberw. Diolch i'r holl eglwysi a agorodd eu breichiau i groesawu'r ddau fyfyriwr, gan gyfoethogi'r hyfforddiant drwy'r cynllun.

Wrth ynganu'r gair gweinidogaeth, cydnabyddwn hefyd ehangder y gair, a hyfryd ydi cael trafod y testun a'r cyd-destun hwnnw, a'r datblygiad naturiol sy'n digwydd yn y weinidogaeth, yn yr adran Eglwysi a'u Gweinidogaeth yn y Cyngor. Rydym yn derbyn bod llu o weinidogaethau, yn cynnwys:

- y weinidogaeth ordeiniedig;
- pregethwyr cynorthwyol cydnabyddedig;
- arweinyddion;
- gweinidogaethau arloesol;
- caplaniaethau;
- gweinidogaeth pobl ifanc a theuluoedd;
- y weinidogaeth fugeiliol;
- gweinidogaeth ar yr aelwyd.

Ac rwy'n edrych ymlaen yn ystod y cyfnod nesaf i ddatblygu ymhellach ein darpariaeth hyfforddiant i gymhwyso pwy bynnag sy'n teimlo galwad i'r gweinidogaethau amrywiol hyn. Mae sawl myfyriwr arall wedi bod yn dilyn amrywiol fodiwlau, a hynny o ddiddordeb personol, neu i'w cynorthwyo i gyflawni eu gwaith o fewn eu heglwys leol. Efallai mai'r dysteb fwyaf i hyn yw gweld y niferoedd sy'n mynychu'r modiwlau rhithwir yn cyrraedd 20–25 yn gyson, a diolch am bresenoldeb, ymroddiad a chyfraniad yr unigolion hynny i gyd.

Mae gennym ddau fyfyriwr sydd hefyd, drwy ein perthynas â Choleg y Bedyddwyr yng Nghaerdydd, yn dilyn cyrsiau achrededig; hynny yw, yn dilyn cyrsiau i ennill cymhwyster academaidd, a hynny ar hyn o bryd drwy brifysgol Caerdydd. Mae Gwilym Jeffs yn dilyn y cwrs Llwybrau a Mwy, a'r Parchg Dylan Rhys Parry yn dilyn gradd Meistr mewn Diwinyddiaeth.



### Cydenwadol

Mae'r partneriaethau cydenwadol yn ein cyfoethogi'n fawr, a thrwy gyfarfodydd rhithwir cyson, ynghyd â'r encil yn Nhrefeca yn gynharach eleni, cawn gyfle i gyd-drafod, i gydrannu ac i gyfoethogi'n gilydd ym maes hyfforddiant. Mae'n deg i ddweud mai un o'r pryderon mwyaf a drafodir yw'r lleihad mawr yn y prifysgolion yma yng Nghymru sy'n cynnig gradd ddiwinyddol, a'r gallu i astudio ar gyfer y radd honno drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ambell sefydliad academaidd yn cynnig graddau, a'r gallu i gyflwyno aseiniadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r mater hwn yn cael ei drafod, a'r trafodaethau hynny'n digwydd yn bennaf drwy'r berthynas sydd gennym â Choleg y Bedyddwyr, ond rwy'n sicr fod angen inni barhau i gydweithio, gan wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau fod y gallu i astudio diwinyddiaeth o safbwynt y cyd-destun Cymreig, a thrwy gyfrwng y Gymraeg, yn bosibl.

### Hyfforddiant mewnol

O ran ein hyfforddiant mewnol, carwn ddiolch i'r holl ddarlithwyr a'r rhai sydd wedi cydlynu'r modiwlau er mwyn sicrhau hyfforddiant safonol, amrywiol a pherthnasol, a diolch diffuant i bawb fu'n cynorthwyo hefo'r trefniadau.

### Hybiau hyfforddi

Un o'r cynlluniau hyfforddiant sy'n pwyso'n drwm ar gydweithrediad gwirfoddolwyr yw'r cynllun hybiau hyfforddi fel cyfrwng i gyflwyno'r hyn a adnabyddwn fel haen un – yr haen sy'n cynnig sesiynau penodol, awr a hanner o hyd, yn edrych ar wahanol agweddau o fywyd eglwysig a'r dystiolaeth Gristnogol. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, cafwyd cyfres o chwe sesiwn, gyda'r niferoedd yn mynychu'r 12 hwb ar hyd a lled y wlad, ar gyfartaledd, rhwng 80 a100. Mae ambell un wedi cwestiynu'r penderfyniad i beidio cynnig opsiwn i ddilyn o adref. Rhan greiddiol y sesiynau hyn yw'r cyfle i gyd-drafod. O ddod at eich gilydd yn lleol, ceir cyfle i ddaearu'r hyn a drafodir o fewn eich cyd-destun penodol lleol chi, gan rannu syniadau gyda chyd-Gristnogion ac i annog eich gilydd. Credaf fod yr hybiau yn cynnig gofod euraidd ar gyfer hynny, a bod y cydgyfarfod wyneb yn wyneb y cyfrwng gorau i sicrhau'r profiad gorau i'r mynychwyr.

Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn academaidd nesaf, mae sawl un eisoes wedi dangos diddordeb mewn dilyn hyfforddiant, ac yn nes ymlaen, wrth lansio'r wefan newydd, bydd cyfle i bawb weld y ddarpariaeth sydd ar gael.

*Bydd ail ran yr adroddiad hwn yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.*

## Barn Annibynnol

# Ffydd mewn chwaraeon

Rydym wedi mwynhau gwledd o chwaraeon yn ddiweddar – Cwpan y Byd pêl-droed y dynion, Tour de France, gemau prawf criced, tennis yn Wimbledon, pencampwriaeth agored clwb golff Royal Birkdale, pencampwriaeth rygbi'r Cenhedloedd a Gemau'r Gymanwlad i enw rhai ohonynt.

Mae chwaraeon yn rhan fawr o fywyd. Mae miliynau o bobl yn chwarae chwaraeon bob wythnos – boed yn gêm achlysurol unwaith yr wythnos gyda ffrindiau yn y parc neu'n hyfforddi'n rheolaidd ac yn cystadlu i ennill. Hyd yn oed os nad ydych chi'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd, does ond angen i chi droi at y cyfryngau torfol i ddeall pa mor bwysig yw chwaraeon heddiw ledled y byd.

### Dylanwadol

Mae cymaint o blaid chwaraeon! Gall gwylio chwaraeon fod yn hynod ddiddorol. Mae rhywbeth am gyffro gêm neu gystadleuaeth sy'n gwneud i'n calonnau guro. Y munud rydych chi'n camu i mewn i stadiwm neu'n troi at gêm ar y teledu, mae'r awyrgylch trydanol a grëir gan y dorf yn eich taro. Y cyffro o beidio â gwybod beth sy'n dod nesaf yw'r hyn sy'n gwneud y campau'n gyffrous. Mae bob amser siawns am ganlyniad annisgwyl. Ar ben hynny, mae gweld ymroddiad athletwyr a chwaraewyr, eu gwaith caled a'u talentau'n bethau sy'n ein hysbrydoli. Mae cefnogaeth i chwaraeon hefyd uwchlaw ffiniau oedran, rhyw a chefndir ac yn gallu uno pobl o bob cwr o fywyd.



### Chwarae'n troi'n chwerw

Dyw'r byd chwaraeon ddim yn fêl i gyd, serch hynny. Mae'r oes ddigidol wedi dod â set newydd o heriau i ddilynwyr chwaraeon ac i'r chwaraewyr eu hunain, gyda cham-drin ar-lein yn dod yn bryder mawr. Mae athletwyr a chwaraewyr proffesiynol yn y byd modern yn wynebu casineb a chamdriniaeth sy'n gallu effeithio ar eu gallu i berfformio, byw eu bywyd, a mynegi eu hunain.

Rydym yn gweld enghreifftiau o'r gwych a'r gwachul ar waith ym myd chwaraeon. Yn ystod cwpan y byd pêl-droed y dynion, er enghraifft, gwelwyd dalentau anhygoel y profiadol Lionel Messi a'r addawol Pau Cubarsí ar waith ond hefyd gwyrdroi cerdyn coch o ganlyniad i ymyrraeth neb llai nag arlywydd yr Unol Daleithiau, chwifio baner ar y cae chwarae ar fater gwleidyddol a gwrthdaro gwael ar ddiwedd y gêm derfynol. Chwarae teg yn troi'n chwarae chwerw!

### Cefnogaeth

Yn y byd chwaraeon mae'n hawdd cael eich effeithio gan straen ac ansicrwydd, pwysau trwm a disgwyliadau uchel. Rhaid wrth rywbeth cadarn i'n cynnal pan mae pethau'n mynd yn anodd. Un elusen sy'n cynnig hyn ym myd chwaraeon yw Cristnogion mewn Chwaraeon.

Mae Cristnogion mewn Chwaraeon eleni yn dathlu 50 o flynyddoedd ers ei sefydlu yn 1976 a dod yn elusen yn 1980 ar ôl i grŵp bach o Gristnogion oedd yn ymwneud â thennis proffesiynol ddechrau cyfarfod i weddïo ac i rannu eu gweledigaeth am ffydd mewn chwaraeon. Ymysg y sylfaenwyr oedd y sylwebydd tennis Gerald Williams, un a chysylltiadau agos â Llangynog a Bancyfelin yn Sir Gâr. Mae'r elusen wedi tyfu a datblygu ers y dyddiau cynnar hynny i fod yn weinidogaeth sy'n cynnal miloedd yn y byd chwaraeon amatur a phroffesiynol.

Mae'r elusen yn hyrwyddo gwerthoedd fel parch, tegwch, a chywirdeb mewn chwaraeon. Caiff athletwyr a chwaraewyr eu harwain i ddefnyddio eu doniau'n gyfrifol, gan ddangos ymddygiad Crist-debyg ar y cae a thu allan iddo.

### Caplaniaeth

Gwasanaeth arall sy'n gyffredin mewn llawer o chwaraeon erbyn hyn yw Caplaniaeth Chwaraeon. Cafodd ei sefydlu yn y Deyrnas Unedig yn 1991 dan yr enw SCORE ond mae'n dwyn yr enw Caplaniaeth Chwaraeon ers 2011. Mae'n elusen Gristnogol sy'n cynnig cynhaliaeth fugeiliol ac ysbrydol ar sail anfarnol ac anenwadol, gan weithio gyda chwaraewyr, hyfforddwyr, staff a chymunedau chwaraeon ehangach. Y nod yw darparu a chynnal caplaniaid Cristnogol ym mhob un o chwaraeon proffesiynol ac amatur y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Mae dylanwad Caplaniaeth Chwaraeon yn sylweddol, yn enwedig mewn pêl-droed, rygbi'r undeb, rygbi'r gynghrair a rasys ceffylau.

Wrth i ni fwynhau campau rhyfeddol ein chwaraewyr a'n hathletwyr, rhaid diolch am fodolaeth elusennau sy'n seiliedig ar ffydd fel Cristnogion mewn Chwaraeon a Chaplaniaeth Chwaraeon. Diolch iddynt am helpu i fynd i'r afael â'r heriau y mae athletwyr, hyfforddwyr, gweinyddwyr a chefnogwyr yn eu hwynebu, gan sicrhau bod y gymuned chwaraeon yn teimlo bod yna ofal drosti a chynhaliaeth iddi.

**R Alun Charles**

(Nid yw'r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)


**CYMANFA BREGETHU GYD-ENWADOL RHOSHIRWAUN**

NOS IAU, AWST 20fed, 2026
AM 6.30 O'R GLOCH

YN NEUADD RHOSHIRWAUN

PREGETHIR GAN

Y PARCHEDIG
Ddr ALUN MORTON THOMAS

Y PARCHEDIG GLYN WISE

Dewch yn llu a chroeso cynnes i bawb.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Hyrwyddo Goleuni

Ar bnawn Llun Eisteddfod y Garreg Las, ym mhabell yr eglwysi, fe lansiwyd albwm o ganeuon addoliad newydd a gomisiynwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg at ddefnydd yr eglwysi. Cydlynydd y prosiect yw'r amryddawn a'r diwyd Rhodri Darcy ac ef oedd yn gyfrifol am ddod â'r cwbl at ei gilydd gan dynnu'r llinynnau priodol. Bydd *Goleuni* allan yn fuan ar Apple, Spotify a YouTube. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fyddant yn fyw yn *Y Tyst* er mwyn ichi wrando arnynt.

Hefyd yn ystod yr hydref byddwn yn cynnal sesiwn ar Zoom i ddangos sut y gallwn ganu'r rhain fel cynulleidfaoedd. Diolch o galon i Rhodri am ei waith mawr.



*Yn ystod y lansio fe berfformiwyd dwy gân oddi ar yr albwm gan Betsan Daniel a James Oakley.*



*Christopher Davies (cyfansoddwr a chynhyrchydd) a Casi Jones, bardd sydd wedi cyfrannu dwy gân.*





## Diwrnod i weinidogion ac arweinyddion sydd â gofal eglwys

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Dewch i ymuno â ni mewn diwrnod arbennig sy'n canolbwyntio ar y thema **CYFATHREBU**

**Dydd Mawrth, 13 Hydref 2026 yn Llety'r Parc, Aberystwyth**

| | |
|---|---|
| **10:00** | **Te / coffi** |
| **10:15** | **Sian Meinir a'r Parchedig Beti-Wyn James**<br>Defosiwn yn seiliedig ar benderfyniad adran Yr Eglwysi a'u Gweinidogaeth yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb. |
| **10:45** | **Delyth Phillips**<br>Yr emyn fel cyfrwng cyfathrebu |
| **11:45** | **Te / coffi** |
| **12:00** | **Sian Owen**<br>Eglwys Cynhwysol – yr angen i gyfathrebu'n effeithiol. |
| **13:00** | **Cinio** |
| **13:30** | **Trafodaeth**<br>'Cyfathrebu effeithiol – allwedd i'n cenhadaeth' |
| **14:00** | **Parchedig Cass Meurig**<br>'Chwarae a Chredu' – Godly Play yn y Gymraeg. Cyfle i ddysgu mwy am yr adnodd hwn i gyfathrebu â phlant. |
| **15:00** | **Parchedig Cass Meurig**<br>Defosiwn i gloi'r diwrnod ar ffurf 'Chwarae a Chredu' |
| **15:30** | **Te / coffi ac ymadael** |

**Cofrestrwch erbyn 30 Medi 2026 – carwyn@annibynwyr.cymru**

*Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl*

Rhaglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

## MODIWL Y SACRAMENTAU

Cynhelir y modiwl uchod dan arweiniad y Parchedig Carwyn Siddall ar y dyddiadau isod:

| | | |
|---|---|---|
| Nos Lun, 7 Medi | 7:30 - 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 14 Medi | 7:30- 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 21 Medi | 7:30 - 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 28 Medi | 7:30 - 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 5 Hydref | 7:30 - 9:00 | Zoom |
| Dydd Llun, 12 Hydref | 10:00 - 3:00 | Aberystwyth |

Bydd y modiwl yn cynnig cyfle i ofyn 'beth yw sacrament?', edrych ar sylfeini Beiblaidd y sacramentau, ein dealltwriaeth ohonynt, a'r wedd ymarferol a berthyn iddynt.

I gofrestru, cysylltwch â'r Parchedig Carwyn Siddall: carwyn@annibynwyr.cymru

*Croeso cynnes i bawb*



*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~